

# Cylchlythyr Partneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych



## Newyddlen Partneriaeth Gweithlu Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych

Gobeithio eich bod chi gyd yn ddiogel ac yn iach. Bydd y rhifyn hwn o newyddlen Partneriaeth Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol (SCWDP) yn eich diweddarau ar Gynllun Hyfforddiant Sir Ddinbych 2020-2021. Cysylltwch os hoffech dderbyn copïau o hen newyddlenni.

## Cynnwys

Cynnwys	Rhif Tudalen
<b>Diweddariad am Hyfforddiant a'r Gweithle</b>	Tudalennau 2 - 3
<b>Tîm PPE</b>	Tudalennau 3 - 6
<b>Gwybodaeth am COVID-19</b>	Tudalennau 6 - 8
<b>Diweddariadau a Newyddlenni Defnyddiol</b>	Tudalennau 8 - 9
<b>Adnoddau Hyfforddiant</b>	Tudalennau 9 - 13
<b>Gwybodaeth Gyswllt - Tîm Datblygu'r Gweithlu Cyngor Sir Dinbych</b>	Tudalen 14

## Diweddariad am Hyfforddiant a'r Gweithle

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau y bydd cyrsiau hyfforddi ar gael o fis Medi ymlaen, bydd y mwyafrif o'r rhain yn cael eu darparu drwy lwyfannau digidol. Felly, cadwch lygad allan am fanylion y cwrs yn ystod yr wythnosau nesaf.

Wrth symud ymlaen, ein gobaith yw datblygu cynllun hyfforddi cadarn a fydd yn gallu addasu i ansicrwydd y dyfodol.

Bydd croeso i unrhyw adborth ar unrhyw hyfforddiant digidol a fynychwyd eisoes gan ein bod yn ymwybodol nad yw pawb yn dysgu yn yr un ffordd a gallai'r syniad o e-ddysgu ymddangos yn newydd a heriol i rai.

Gyda hyn mewn golwg, un o'r tasgau parhaus yr ydym yn rhagweld y byddwn yn ei wneud yn y dyfodol agos fydd deall mynediad eich gweithiwr at offer TG a lefel eu llythrennedd digidol - mae camau y gallwn eu cymryd i gefnogi hyn yn y lle cyntaf. Gall y wybodaeth hon helpu i gyfrannu at ein cynllun hyfforddi wrth iddo symud ymlaen.

Os ydych chi'n cael problemau cael gafael ar offer TG neu os oes angen cymorth ar y staff gyda lefel eu llythrennedd digidol, cysylltwch â Samantha O'Mara drwy ebostio

[Samantha.O'Mara@denbighshire.gov.uk](mailto:Samantha.O'Mara@denbighshire.gov.uk) neu ffoniwch 01824 706610.

## Tîm PPE

Yn y rhifyn hwn, hoffem ddiolch i dîm PPE Sir Ddinbych am eu gwaith caeld. Maent wedi bod yn eich cefnogi drwy ddsbarthu PPE Llywodraeth Cymru ers dechrau'r cyfnod COVID. Hoffem hefyd achub ar y cyfle hwn i chi gyfarfod y tîm.

Mae PPE yn dîm newydd a gafodd ei sefydlu ar ddechrau'r cyfnod COVID. Daeth Nigel Jones, sef rheolwr tîm CESI a Thîm Datblygu'r Gweithlu, â grŵp bach o bobl ynghyd i helpu i gylynu'r gwaith o ddsbarthu PPE Llywodraeth Cymru i holl Ddarparwyr Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych.

## Cyfarfod y Tîm PPE

Roedd **Caroline Morgan** yn gweithio fel Swyddog Monitro o fewn Tîm Datblygu'r Gweithlu ac ar ddechrau'r cyfnod COVID ym mis Mawrth cafodd y dasg o ddatblygu'r tîm PPE gyda Nigel ac Adele, gan ddatblygu prosesau i alluogi llif gwaith cyson ar gyfer dosbarthu PPE ar draws y sir. 16 wythnos yn ddiweddarach mae hi'n dal yma'n gweithio'n galed gyda'r tîm PPE sy'n addasu yn ôl y galw.

Mae **Adele Ryan-Evans** yn Swyddog Gweinyddu Busnes wedi ei lleoli yn Nhîm Datblygu'r Gweithlu ac mae'n trefnu cyrsiau hyfforddiant Gofal Cymdeithasol i'r holl staff mewnol ac allanol. Datblygodd Adele y tîm PPE gyda Caroline a gweithiodd yn ddiflino yn derbyn ceisiadau PPE ac yn sicrhau bod nwyddau'n cael eu pecynnu'n barod i'w dosbarthu. Bu Adele yn cysylltu bob dydd â'n darparwyr. Cafodd Adele effaith gadarnhaol ar y tîm PPE

ac mae bellach yn cefnogi ein holl wirfoddolwyr ac mae'n adleoli ac yn trefnu hyfforddiant iddynt er mwyn cyflawni rolau yn y gymuned.

Mae **Nickkie Taylor** yn gweithio fel Swyddog Tai yn Gyntaf gyda'r Tîm Tai yn Gyntaf. Roedd gan Nickkie swydd arbennig, sef danfon PPE ar draws y sir. Bu hefyd yn derbyn ceisiadau arbennig ac yn danfon Ready Brek i gartref gofal a oedd yn cael trafferth cael cyflenwad ar gyfer un o'u preswylwyr. Bu Nickkie yn cofnodi ei theithiau'n ddyddiol gan dynnu lluniau hardd o'n Sir. Ar ddechrau mis Mehefin bu'n rhaid i Nickkie ddychwelyd i'w swydd wreiddiol a oedd yn wirioneddol drist i'n tîm.

Mae **Ashley Williams** yn gweithio fel Cynorthwydd Atal Digartrefedd gyda Thîm Atal Digartefedd Sir Ddinbych. Cafodd Ashley hefyd y dasg o ddanfon PPE i'n holl ddarparwyr. Roedd Ashley yn gaffaeliad gwirioneddol i'r tîm yn enwedig gyda'r gwaith o drefnu ac aildrefnu ein stoc PPE bob tro y deuai cyflenwad newydd. Ddechrau mis Mehefin, aeth Ashley, aelod allweddol arall o'r gwasanaeth PPE, yn ôl i'w swydd wreiddiol yn y Tîm Atal Digartrefedd.

Mae **Sarah Bridge** yn gweithio fel Swyddog Gweinyddu Busnes yn Nhîm Datblygu'r Gweithlu yn cefnogi lleoliadau'r myfyrwyr ac yn trefnu cyrsiau hyfforddi. Mae Sarah bellach yn gweithio gyda'r tîm PPE ac yn derbyn yr holl geisiadau PPE gan ein darparwyr ac yn cysylltu â nhw o ddydd i ddydd. Mae Sarah yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr holl nwyddau'n cael eu darparu'n effeithlon.

Mae **Kevin Jarvis** yn gweithio fel Dirprwy Reolwr Tîm yn Nhîm Datblygu'r Gweithlu, gan reoli'r grant SCWWDP a llif gwaith cyrsiau hyfforddi a lleoliadau myfyrwyr. Mae Kevin yn gweithio'n galed ac mae bellach yn goruchwyllo'r gwaith o redeg PPE ac yn mynychu cyfarfodydd wythnosol gyda darparwyr, delio â materion neu ymholiadau a chefnogi Caroline i gydlynu'r gwasanaeth.

Mae **Tony Hollywell**, sy'n gweithio gyda Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych ac yn danfon llyfrau drwy'r sir, wedi newid swydd ac wedi cael ei adleoli i ddanfon PPE yn hytrach na llyfrau. Gweithiodd Tony'n galed a brwdfrydig, gan sicrhau bod ein darparwyr yn derbyn eu PPE. Bu Tony yn cynorthwyo'r tîm tan ddechrau mis Mai cyn mynd yn ôl i'w swydd wreiddiol.

Ers hynny, mae **Julie Mills** a ddechreuodd swydd newydd yn ddiweddar yn y ganolfan bowlio ym Mhrestatyn wedi cael eu hadleoli i ymuno â'r tîm PPE ac mae'n aelod allweddol o'n tîm. Mae Julie'n gweithio'n galed yn ein warws yn derbyn PPE ac yn sicrhau ei fod yn barod cyn dosbarthu'r nwyddau i ddarparwyr ledled y sir.

**Mae Shaun Hughes** wedi'i leoli yng Nghanolfan Hamdden Dinbych, lle mae'n gweithio yn y gampfa ac yn darparu dosbarthiadau ffitrwydd. Mae bellach wedi cael ei adleoli ac mae'n danfon PPE i ddarparwyr. Mae Shaun yn gweithio'n eithriadol o galed yn y warws ac allan wrth ddanfon y PPE. Mae'n gaffaeliad mawr ar ddiwrnodau danfon PPE!



Chwith i'r dde, Caroline Morgan, Nickkie Taylor, Ashley Williams, Adele Ryan-Evans



Chwith i'r dde (mae'r tîm yn gwenu o dan eu mygydau☺)

Kevin Jarvis, Ashley Williams, Shaun Hughes, Caroline Morgan, Julie Mills, Nickkie Taylor, Sarah Bridge

Mae'r tîm yn gweithio ar sail wythnos i ddarparu PPE brys i ddarparwyr, gyda chanllawiau'n newid yn rheolaidd ac amgylchiadau'n newid yn gyson. Mae'n gweithio orau i ni a'n darparwyr er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y nifer sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu hanghenion. Rydym yn adrodd bob dydd i Lywodraeth Cymru gan gofnodi nifer y nwyddau PPE sy'n cael eu dosbarthu.

Mae wedi bod yn brofiad heriol ond cadarnhaol. Mae'n anhygoel sut mae tîm o bobl o wahanol wasanaethau wedi dod at ei gilydd a gweithio fel un drwy'r cyfnod anodd hwn.

## Gwybodaeth am COVID 19 ac Adnoddau Hyfforddiant

### Adolygiad Seneddol COVID 19

Mae'r Cyd-bwyllgor Seneddol ar Hawliau Dynol (JCHR) ar hyn o bryd yn cynnal ymchwiliad i ymateb Llywodraeth y DU i Covid-19. Mae'r ymchwiliad hwn yn edrych ar sut y gallai fod wedi effeithio ar hawliau dynol pobl. Mae Sefydliad Hawliau Dynol Prydain yn cynnal arolwg i gasglu safbwyntiau pobl i'w cyflwyno i'r pwyllgor.

- Ar gyfer y rhai sy'n **gweithio ym maes gofal cymdeithasol neu wasanaethau iechyd** dolen yr arolwg yw: [Survey for People Working in Social Care or Health Services](#)
- Os hoffech gwblhau neu rannu ein **harolwg ar gyfer pobl a theuluoedd** gallwch wneud hynny yma: [Survey for People and Families](#)
- Os hoffech gwblhau neu rannu ein **harolwg ar gyfer grwpiau eiriolaeth ac ymgyrchu** gallwch wneud hynny yma: [Survey for Advocates and Campaigning Groups](#)

### Adnodd Asesu Risg COVID 19

Lansiwyd Adnodd Asesu Risg Gweithlu Covid-19 Cymru Gyfan gan Lywodraeth Cymru. Prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw diogelu cymunedau a'r gweithlu yng Nghymru, ac mae'r adnodd hwn yn eich helpu i ddiogelu eich staff yn ystod y misoedd anodd sydd i ddod.

Mae'r adnodd hygyrch ac effeithiol hwn wedi'i gynllunio i helpu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i weld a ydyn nhw, yn bersonol, mewn mwy o berygl o ddiodeff effeithiau difrifol os ydynt yn cael eu heintio â COVID19. Ar ôl nodi categori risg personol aelod o staff, bydd yr adnodd yn awgrymu newidiadau posibl yn y gweithle a chyngor cyffredinol i liniaru risg, ac yn eich cyfeirio at nifer o adnoddau i helpu iechyd a lles corfforol a meddyliol.

Gellir gweld yr adnodd, yn ogystal â'r canllawiau ategol a'r Cwestiynau Cyffredin yn:

[Check your Risk](#)

[Gwirio eich Risg](#)

Mae'r adnodd bellach ar gael hefyd drwy NHS Learning (dolen uniongyrchol o dudalen gwefan Llywodraeth Cymru uchod). Mae'r fersiwn ar-lein yn darparu swyddogaethau ychwanegol i gofnodi'r asesiadau a sgysiau a champau gweithredu dilynol. Os nad ydych yn gyfarwydd â Learning@Wales, bydd angen i chi greu cyfrif a fydd hefyd yn rhoi mynediad i chi i ddewis o fodiwlau e-ddysgu sydd ar gael.

Os ydych yn cael problemau mynediad, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth E-ddysgu drwy sgwrsio'n fyw, 01443 848636 neu [elarning@wales.nhs.uk](mailto:elarning@wales.nhs.uk). Ar gyfer unrhyw broblemau eraill neu gyngor ar ddefnyddio'r adnodd cysylltwch â

[HSS.Covid19.WorkplaceAssessmentSubGroup@gov.wales](mailto:HSS.Covid19.WorkplaceAssessmentSubGroup@gov.wales)

Gellir gweld fideo sy'n esbonio mwy am ddefnyddio'r adnodd ar sianel YouTube Llywodraeth Cymru:

[Covid-19 Workforce Risk Assessment Tool Video Clip](#)

[Covid-19 Workforce Risk Assessment Tool Video Clip - Welsh Version](#)

Bydd cyflwyniad ar 13 Awst yn rhoi cyfle i ddysgu mwy am fanteision defnyddio'r adnodd yn y gweithle, ac i ofyn unrhyw gwestiynau/rhoi adborth personol am gwblhau'r asesiad a gweithredu unrhyw gamau o ganlyniad i hynny. Caiff y cyflwyniad ei ddarparu drwy Microsoft Teams.

I fod yn bresennol, cofrestrwch trwy anfon e-bost at [SocialCareCoordination@gov.wales](mailto:SocialCareCoordination@gov.wales).

## **ADSS Cymru: Gweminiar Cymorth Covid-19 i Ddarparwyr a Gomisiynwyd - Canllaw**

<https://www.adss.cymru/cy/blog/post/covid19-commissioners>

## **Hyfforddiant Ar-lein Cymorth COVID-19**

Hyfforddiant ar gyfer **dechreuwyr** newydd. Mae'r **cwrs hwn** wedi'i gynllunio i ddarparu hyfforddiant a chymorth i staff rheng flaen yn ystod pandemig COVID-19. O ddeall beth yn union yw COVID-19 i ddeall sut y gallwch gefnogi cleientiaid a staff drwy'r cyfnod, gan reoli risg.

[Aneemo Academy COVID 19 Support](#)

## **Diweddariadau a Newyddlenni Defnyddiol**

### **Diogelu Amddiffyn Rhyddid (LPS)**

Ar 16 Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddyddiad newydd ar gyfer LPS gyda'r bwriad o'u gweithredu'n llawn yn Ebrill 2022.

Gellir dod o hyd i ddolen i gyhoeddiad llawn y Gweinidog yma: [LPS Safeguards Statement](#)

### **Adroddiad Gofal Cartref Gofal Cymdeithasol Cymru**

Gellir gweld yr adroddiad llawn yma: [SCW Domiciliary Care Workers on the Register Report Jun 2020](#)

Gellir gweld blog a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan David Pritchard Cyfarwyddwr Rheoleiddio yma:

[What can we learn from the recent Dom Care report](#)



## **Newyddlenni Diwydiant**

Mae gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd i'w gweld ar y tudalennau gwe canlynol.

Mae'r rhain yn cael eu diweddarau'n rheolaidd:

[ADSS Weekly Newsletters](#)

[Social Care Wales Covid-19 Guidance](#)

[NICE Social Care Updates and Resources](#)

[North Wales Social Care and Wellbeing Services Improvement Collaborative](#)

## **Adnoddau Hyfforddiant**

### **RCS**

Mae'r holl weminarau wedi'u restru drwy'r ddolen isod ac maent ar gael am ddim i unrhyw fentrau o fewn Sir Ddinbych, gyda chymorth dilynol ychwanegol ar gael i'r rhai sydd wedi'u dosbarthu'n BBaChau.

Mae Gweminarau enghreifftiol yn cynnwys, Cefnogi Iechyd Meddwl a Lles Gofal Iechyd

[RCS Wellbeing Webinars](#)

### **Hyfforddiant Diogelu Pobl Hŷn**

Mewn ymateb i Covid-19, mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig hyfforddiant ar-lein am ddim sy'n trafod cam-drin domestig yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae hyfforddiant ar gael ar-lein ar unrhyw adeg ac mae wedi'i rannu'n 4 modiwl byr, felly gallwch fewngofnodi ac allgofnodi ar ôl gwneud un adran ar y tro neu gallwch wneud y 4 adran gyda'i gilydd (tua 1 awr 20 munud):

Modiwl 1: Deall cam-drin domestig a phobl hŷn

Modiwl 2: Gofyn am gymorth - Rhwystrau, hwyluswyr ac ystyriaethau ychwanegol

Modiwl 3: Effaith a lles iechyd meddwl

Modiwl 4: Cynllunio diogelwch, a chyfeirio

I gael mynediad i'r hyfforddiant cliciwch y ddolen ganlynol: [England and Wales Courses](#)

Os oes gennych unrhyw broblemau, cysylltwch â [hello@dewischoice.org.uk](mailto:hello@dewischoice.org.uk) a bydd aelod o'r tîm yn eich cynorthwyo.

## **Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru**

Gellir cael mynediad i Sesiynau Briffio 7 munud BDGC yma. Mae rhai o'r ychwanegiadau diweddar yn cynnwys;

[NWSB 7 Minute Briefings](#)

## **Gofal Cymdeithasol Cymru**

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn parhau i ychwanegu dolenni ac adnoddau, felly edrychwch ar y wefan yn rheolaidd.

Gwefan Gofal Cymdeithasol Cymru - [Training Courses](#)

Adnoddau Iechyd a Lles Gofal Cymdeithasol Cymru- [Health and Wellbeing](#)

## **Hyfforddiant Iaith, Urddas a Gofal**

Mae'r adnodd hyfforddi newydd i gefnogi gweithio'n ddwyieithog – **iaith, Urddas a Gofal** – newydd fynd yn fyw ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Datblygwyd yr adnodd 'hyfforddi'r hyfforddwr' i gefnogi hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i fyfyrwyr a phobl sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

[Language Dignity and Care](#)

## **Dementia a COVID 19**

Mae'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol wedi diweddarau ei dudalen Dementia a Covid 19 yn ddiweddar gan ychwanegu gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol

[SCW Dementia and COVID 19](#)

## **Fidoes Defnyddiol am Dementia**

Cof: [You Tube video clip - Memory](#)

Newidiadau Synhwraidd: [You Tube video clip - Sensory Changes](#)

Ffactorau sy'n cyfrannu: [You Tube video clip - Formulation](#)

Anghenion: [You Tube video clip - Needs](#)

[Information for Carers from Pennine Care NHS Website](#)

## **Silver Cloud**

Rhaglen therapi ymddygiad gwybyddol ar-lein yw SilverCloud, sydd wedi bod ar gael am ddim i weithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr allweddol eraill yng Nghymru. Nod y rhaglen yw helpu i leihau iselder a phryder, ac mae'n cynnwys saith i wyth modiwl y gellir eu cwblhau ar eich cyflymder eich hun. I gael mynediad i'r rhaglen, bydd angen cod mynediad am ddim arnoch, sydd ar gael drwy gerdyn gweithiwr gofal cymdeithasol

[SilverCloud](#)

## **UNISON Cymru Wales - WULF**

**Academi Sgiliau Staff (SSA) - Aelodau (ar gyfer aelodau UNSAIN)** dros 550 o gyrsiau achrededig, hygyrch, ar-lein, y gellir eu cwblhau drwy ddysgu eich hun o'r adnoddau a

ddarperir. I gael mynediad i'r SSA, e-bostiwch [cymruwaleswulf@unison.co.uk](mailto:cymruwaleswulf@unison.co.uk) i ofyn am gyfrif SSA

**Learn My Way** Cyrsiau ar-lein am ddim sy'n cwynnwys amrywiaeth o bynciau gan gynnwys 'Hanfodion Ar-lein' a 'Diogelwch Ar-lein'. I gael mynediad i'r cyrsiau hyn a chadw'r cynnydd a wnewch, cofrestrwch, gan ddewis UNSAIN Cymru fel eich 'Canolfan'.

[Learn My Way Website](#)

**Gwasanaeth Cyfeirio UNSAIN** - porwch drwy ein bwrdd cyfeirio 'Padlet' sy'n cynnwys ystod o wybodaeth gan gynnwys dolenni i ddeunydd dysgu am ddim gan ddarparwyr megis y Brifysgol Agored a'r sefydliad Mindfulness:

[UNISON Cymru Wales Learning - Signposting Service 'Padlet'](#)

[UNISON Cymru Wales Learning - Covid-19 'Padlet'](#)

## Prosiect WULF

Mae cyfleoedd dysgu WULF ar gael i'r rhai sy'n byw neu'n gweithio yng Nghymru ac sy'n gweithio mewn ysgolion, ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol (nid oes rhaid i ddysgwyr fod yn aelodau o UNSAIN i fod yn gymwys):

[WULF Online Learning](#)

## Addysg Oedolion Cymru

Cyflwyniad i Iaith Arwyddion Prydain (cwrs 8 wythnos) - [B.S.L. course](#)

## Hyfforddiant Cydnerthedd am Ddim Making GenerationR

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, ewch i'w gwefan ac i'n Gweminarau Cydnerthu am ddim ar gyfer y Gwasanaethau Rheng Flaen, a ddarperir gan aelod o Blesma. Cysylltwch â @MakingGenR os ydych am glywed stori ysbrydoledig a bod yn rhan o'r profiad cadarnhaol hwn! [Makinggenerationr Free Training](#)

## Datblygu sgiliau digidol a mynediad i offer TG

Gwefan o gyrsiau ar-lein am ddim i ddechreuwr yw '**Learn My Way**', sy'n eu helpu i ddatblygu sgiliau digidol i wneud y gorau o'r byd ar-lein. [Digital Skills - Free Courses](#)

## Cymunedau Digidol Cymru: gweminarau am ddim

Mae Cymunedau Digidol Cymru yn trefnu amrywiaeth o weminarau am ddim sy'n helpu pobl i ddefnyddio technoleg yn ystod pandemig Covid-19 [Digital Communities - Free Webinars](#)

## Mynd ar-lein gartref

Mynediad fforddiadwy i gyfrifiaduron (wedi'u hadnewyddu) os ydych yn derbyn budd-daliadau cymwys, neu os nad ydych ar fudd-daliadau [Get Online at Home](#)

## FutureDotNow

I gynorthwyo gweithwyr i fynd i'r afael â thechnoleg. Gwybodaeth ar gael am fentrau sgiliau digidol gan gynnwys sesiynau hyfforddi ac adnoddau

[Digital Skills Initiatives from FutureDotNow](#)

Hefyd mae'r ymgyrch **DevicesDotNow** yn gofyn am roddion ar ffurf tabledi, ffonau clyfar, gliniaduron i rymuso rhai o'r cartrefi mwyaf bregus.

[DevicesDotNow Campaign](#)

## Gwybodaeth Gyswilt - Tîm Datblygu'r Gweithlu Cyngor Sir Ddinbych

A fydddech cystal â rhoi gwybod i ni pan fydd eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn yn newid fel y gallwn sicrhau eich bod yn parhau i dderbyn taflenni am Gyrsiau Hyfforddi SCWDP cyn gynted ag y byddant wedi'u trefnu. Ffoniwch y tîm gweinyddu - 01824 706633 neu e-bostiwch [scwdp@denbighshire.gov.uk](mailto:scwdp@denbighshire.gov.uk)

Nid yw cyfeiriadau yn y cylchlythyr at unrhyw gynnyrch, gwasanaeth neu gwmni penodol yn golygu ei fod wedi'i gymeradwyo gan Bartneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych.

Enw	Manylion Cyswilt
<b>Nigel Jones</b> Rheolwr Tîm	<a href="mailto:nigel.jones@denbighshire.gov.uk">nigel.jones@denbighshire.gov.uk</a> 01824 708354
<b>Kevin Jarvis</b> Dirprwy Reolwr Tîm	<a href="mailto:Kevin.jarvis@denbighshire.gov.uk">Kevin.jarvis@denbighshire.gov.uk</a> 01824 706605
<b>Sonia Pugh</b> Swyddog Datblygu Staff	<a href="mailto:Sonia.pugh@denbighshire.gov.uk">Sonia.pugh@denbighshire.gov.uk</a> 01824 706367
<b>Margaret Watkins</b> Swyddog Datblygu Staff	<a href="mailto:margaret.watkins@denbighshire.gov.uk">margaret.watkins@denbighshire.gov.uk</a> 01824 708377
<b>Samantha O'Mara</b> Swyddog Monitro	<a href="mailto:Samantha.O'Mara@denbighshire.gov.uk">Samantha.O'Mara@denbighshire.gov.uk</a> 01824 706869
<b>Adele Ryan-Evans</b> Swyddog Gweinyddol	<a href="mailto:Adele.Ryan-Evans@denbighshire.gov.uk">Adele.Ryan-Evans@denbighshire.gov.uk</a> 01824 706359
<b>Steven Owens</b> Swyddog Gweinyddol	<a href="mailto:Steven.owens@denbighshire.gov.uk">Steven.owens@denbighshire.gov.uk</a> 01824 706637
<b>Sarah Bridge</b> Swyddog Gweinyddol	<a href="mailto:Sarah.bridge@denbighshire.gov.uk">Sarah.bridge@denbighshire.gov.uk</a> 01824 706347